

❖ Y SUL WEDI'R NADOLIG

Gad i ni sylweddoli heddiw, Arglwydd, nad at y doeth yn unig y daethost, nad at y cyfoethog chwaith. O gwmpas dy breseb roedd bugeiliaid syml. Galw ni atat dy hun fel y bugeiliaid gynt, a gad i ni gael cip ar dy ogoniant. Amen.

Emyn: *Caneuon Ffydd* 454, “Wele fi yn dyfod,” llefai'r Meichiau gwiw'

Darllen: Luc 2:8–20

Emyn: *Caneuon Ffydd* 469, 'Rhown foliant o'r mwyaf i Dduw y Goruchaf'

Gwedd: Heddiw Arglwydd, ar y Sul wedi'r Nadolig rydym yn dod atat Ti gan chwilio am yr ateb i fywyd. Nid yw pawb yn ddoeth a dysgedig, does gan bawb mo'r gallu i siarad yn gyhoeddus na'r hyder i weddio ar goedd efallai, ond 'sdim ots am hynny. Fe all pawb ohonom yn ein ffordd syml ein hunain dystiolaethu i'r hyn mae Duw wedi ei wneud yn ein bywydau. Mae'r Nadolig drosodd bellach a rhyfeddod yr ŵyl yn pylu am flwyddyn arall. Ond gad i ni gofio, Arglwydd, dy fod yn parhau. Yr un wyt Ti o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, ac mae dy eiriau i ni ar gael yn y Gair bywiol y gallwn ni ei ddarllen mor hawdd bob dydd. Gad i ni benderfynu troi ato a siarad gyda Thi bob dydd yn y flwyddyn newydd sydd i ddod. Diolch i Ti dy fod yn wobrwyr hael pob un sy'n dy geisio. Gad i ni felly dy ddarganfod o'r newydd yn ein cartrefi a'n apeli. Amen.

Emyn: *Caneuon Ffydd* 427, 'Arglwydd Iesu Grist, daethost atom ni'

Neges: Luc 2:17, 18 '...mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt.'

Rydym ni i gyd yn cofio pwy oedd yno yn y llety llwm ar y Nadolig cyntaf. Mair a Joseff, a'r baban yng ngwair y preseb wrth gwrs. Y Doethion dysgedig hefyd – a'u camelod blinedig ynghlwm yn y cefn yn rhywle – a thwr o fugeiliaid. Mae'r Doethion a ddaeth i weld y Gwardwr yn arwydd bod Iesu i'r dysgedigion a'r deallus, i'r bobl gall hynny a allai ddarllen yr arwyddion, a oedd yn berchen ar wybodaeth drylwyr a manwl. Roedden nhw hefyd yn bobl o fodd fel y tystia eu hanrhegion drud. Ond beth am y bugeiliaid tlawd a syml? Pwy oedd y rhain a beth oedd eu cefndir hwy, tybed?

Mae traddodiad y genedl Iddewig yn draddodiad nomadaidd a bugeiliol yn y bôn. Yn yr hen ddyddiau – cyn taith teulu Jacob i'r Aiff – roedd bugeilio defaid yn ffordd gyffredin o fyw, hyd yn oed i etifeddion cyfoethog teuluoedd gweddol gefnog – Joseff a'i frodyr er enghraifft, ac i ferched hyd yn oed – bugeilio defaid ei thad Laban oedd gwaith Rahel, ac felly hefyd Seffora, merch Jethro. Ond pan aeth yr hen genedl i fyw yn gyfan gwbl yn yr Aiff, er eu bod yn byw yn Gosen oedd yn dir da ar gyfer preiddiau, troes meddyliau'r bobl at ddinasoedd. A phan ddaeth y genedl allan o'r gaethglud ac wedi dyddiau Moses, pentrefol a threfol oedd ffordd yr Israeliaid o fyw. Heblaw am y llwythau bugeiliol ddewisodd aros yn Gilead gyda'u preiddiau y tu draw i'r Iorrdonen yn nyddiau Joshua, roedd sefydlu manau i fyw yn barhaus yn apelio mwy na theithio oddi amgylch fel gynt. O'r dyddiau hyn ymlaen felly, doedd bugeilio defaid ddim yn swydd barchus ac roedd y bugail yn ddyn o safle isel yn gymdeithasol. Cofiwch fod Samuel wedi synnu mai Dafydd – y bugail ifanc – yn hytrach na'i frodyr hŷn oedd yn filwyr ym myddin Saul a ddewisodd Duw i fod yn frenin ar Israel. Doedd bugeilio ddim yn *job* ac iddi statws.

Mae'r hen broffwyd Amos yn ategu hyn ac yn esgusodi ei bedigri gwael fel pregethwr a llais i Dduw yn ei gymuned – namyn (sef dim ond) bugail oeddwn i, meddai. Hynny ydyw, doedd ganddo ddim statws cymdeithasol, na dysg na hyfforddiant proffesiynol.

Un o'r rhesymau pam roedd pobl Israel yn edrych i lawr ar fugeiliaid oedd eu bod nhw'n aml yn aflan – yn gorfod cyffwrdd â chyrff marw a baw fel rhan o'u gwaith, ac fel gwyddoch chi roedd rheolau gan yr Iddewon am bethau felly. Oherwydd natur eu gwaith hefyd, yn teithio yma a thraw, doedden nhw ddim yn bobl y synagog. Fel ffermwyr heddiw, roedd galwadau eu hanifeiliaid yn aml yn eu rhwystro rhag addoli ar adegau penodedig. Felly, pam y dewisodd yr angel a'r llu nefol ddangos eu hunain i'r rhain o bawb, allan yn y caeau? Pam na fydden nhw wedi picio i'r Deml – wedi'r cyfan fe wnaeth Gabriel hynny pan ymwelodd â

Sachareias rai misoedd ynghynt, yn do? Pam na fydden nhw wedi ymddangos a dallu selogion y synagog ym Mehlehem tybed, oherwydd fe allwch chi fod yn sicr bod synagog yno. Na. Dewis ymddangos a wnaethant i ddyrnaid o fugeiliaid nid i Ysgrifenyddion hyddysg yn y Gyfraith nac i'r Archoffeiriaid a oedd yn gwybod eu stwff, yn ddarllenwyr ar y Torah a'r Proffwydi. Pam felly? (Fe allech chi ofyn wedyn pam na wnaeth Iesu ymddangos i Caiaffas wedi iddo atgyfodi ond yn hytrach i gyn-butain.)

Wel, fel ag yr oedd y Doethion yn arwydd bod Iesu i'r doeth a'r dysgedig o blith y ddynoliaeth, ac yn arbennig felly o blith cenedl-ddynion ymchwilgar a hyfforddedig, mae'r bugeiliaid gwledig sy'n cael eu synnu gan y newyddion da yn arwydd i ni fod Iesu ar gyfer haenau isaf, lleiaf parchus y gymdeithas Iddewig hefyd. A sylwch beth mae'r bugeiliaid yn ei ddweud wedi i'r angylion fynd. 'Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd.' Allai'r Ysgrifenyddion ddim mynd i drafferth i gerdded o Jerwsalem i Fethlehem, ond fe aeth y rhain gan ddilyn cyfarwyddiadau manwl yr angylion a darganfod y wyrth ryfedd yn y preseb. Yn union wedi iddynt weld y plentyn yn y gwair maent yn dechrau dweud wrth bawb am neges yr angylion a'r addewid sydd wedi ei chyflawni. Maen nhw'n dweud wrth bawb – yn llawen – am yr hyn oedd wedi digwydd allan yn y meysydd, ac maent yn tystio i ryfeddod bodolaeth Duw a chân yr angylion. Siŵr gen i eu bod wedi bod yn sôn am yr hyn ddigwyddodd am weddill eu hoes. Roedden nhw'n dwr o ddynion ofnus; bellach maen nhw ar dân ac am ddweud wrth bobl Bethlehem a'r cyffiniau am yr hyn roedden nhw wedi ei weld a'i glywed allan yn y caeau ac wedi ei weld yn llety'r ych a'r preseb.

Pry wedi taro yn eu pennau siŵr o fod oedd ymateb rhai i'w neges ryfedd. Gormod o win oedd dyfarniad eraill siŵr o fod – fe wyddoch chi sut mae hi adeg Nadolig! Llawer o hen frwdfrydedd dwl oedd barn yr arweinwyr crefyddol na welson nhw ddim ac na chlywson nhw ddim ar y noson arbennig honno. Ond mynd ymlaen i dystio wnaeth y bugeiliaid, er syndod i'r gymuned. Yn wir, pan oedd Luc yn ysgrifennu'r dystiolaeth am ddyfodiad y Crist i'r byd i lawr ar femrwn ddegawdau wedyn, roedd y cof yn dal ar gael am eiriau a phrofiadau a thystiolaeth od y bugeiliaid. Rhaid felly i'w neges syml gael argraff gref ar ardal Bethlehem.

A beth amdanom ni, meddech chi? Ydyn ni yn dystion da i rywbeth anesboniadwy ddigwyddodd dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ynteu ai pobl grefyddol *no-nonsense* ydyn ni? Ond, meddech chi, does gen i ddim addysg coleg diwinyddol na gradd B.D. tu ôl i mi. 'Sdim ots! Doedd gan y bugeiliaid ddim chwaith. Dweud wrth bawb wnaethon nhw am y pethau rhyfeddol roedd Duw wedi eu datguddio iddynt, ac oherwydd iddyn nhw ddweud, fe gofiwyd eu geiriau hwy a geiriau'r angylion – air am air!

Ati felly bobol! Os yw Duw yn sbesial i chi, soniwch amdano wrth eraill. Nid gradd y mae ei hangen ond profiad o Iesu, dyna i gyd! Amen.

Emyn: *Caneuon Ffydd* 441,
'Wele, cawsom y Meseia, cyfaill gwerthfawroca' 'rioed'

Y Fendith